It transpires that this Standing Conference is the first of its kind to be formed anywhere in Great Britain and a warm letter of commendation has been received from the Home Office which encourages the Conference to proceed with its aims. The Annual Conference will be held on 16th October, 1963, and the principal speaker will be The Rt. Hon. The Lord Jellicoe, Minister of State, Home Office.

The Standing Conference which consists of representatives from Government Departments, the Probation Service, Prison Officers and Voluntary Organisations, has dealt amongst other topics with

Activities the following specific matters:—The necessity for obtaining more Friends to assist the Discharged Prisoners Aid Society in dealing with the rehabilitation of ex-prisoners.

Dissemination of information as to how voluntary organisations can best be informed on the role they can play in helping ex-prisoners and their families.

The securing of employment for ex-prisoners. Arrangements are being made to circulate industrial concerns and business houses to ascertain whether they are prepared to be included in a list of those who would give consideration to employ discharged prisoners.

The provision of a new Salvation Army Hostel to replace the present premises in Bute Street which are threatened by demolition because of development plans in the City of Cardiff.

Endeavours have been made to secure liaison with local Approved Schools, Remand Homes and Borstal Institutions, with a view to bringing the assistance of the Conference to young people placed in these Schools, Homes and Institutions.

Consideration has also been given to dissemination of information to the Citizens' Advice Bureaux in order to enable them to deal with relevant enquiries. Discussions have taken place as to how best the objects of the Conference could be made known in the rural areas of Wales, where, as yet, there are no formal bodies dealing with the care of discharged prisoners. Arrangements have been made for the collection of used clothing to be sent to the appropriate organisations dealing with this need.



ADRODDIAD BLYNYDDOL

1962-63



RHAGAIR Y CADEIRYDD

Wrth ddarllen yr adroddiad gobeithiaf eich tarewir nid yn unig gan y gwaith a gwblhawyd gan yr adrannau ond hefyd gan gylch sy'n parhau i changu o wasanaeth cymdeithasol, a pha un yr ydym yn gysylltiedig.

Hyderaf ei bod yn dir cyffredin na fedr ac na ddylai awdurdodau sefydlog eu hun gwrdd a'r llu o alwadau am waith cymdeithasol.

Cynhyrchodd yr oes hon gyfnewidiadau chwyldroadol a greodd problemau newydd. Golyga hyn fod yn rhaid cael gweithwyr cymdeithasol gwirfoddol nid yn unig o'r dosbarthiadau ymdddeol ond hefyd o'r ieuenctid. Teimlaf fod llawer o'r ieuenctid yn barod i dderbyn y cyfrifoldeb hwn os cânt gymryd rhan yn y gwaith, ac nad yw'r gofyniadau ar eu bywyd beunyddiol yn ormodol. Dylai'r gofyniadau hyn yng ngwyneb cynnydd ein horiau hamdden leihau.

Eto ni fedr gwyddoniaeth gymdeithasol heddiw oddef na derbyn sefydliadau gwirfoddol aneffeithiol ac anaddas.

Felly fy nghais yw ar i bawb sydd yn ymwneud a gwasanaeth cymdeithasol i gefnogi, cydweithredu a rhannu cyfrifoldeb gyda ieuenctid.

Yn ail rhaid trefnu gwirfoddolwyr are seiliau proffesiynol a darparu'r hyfforddiant iawn i'w helpu i gwrdd yn effeithiol a gofyniadau cyfoes.

Y ffordd yma yn unig y medrwn gadw mewn cytgord â'r wyddoniaeth sy'n tyfu o astudio swyddogaeth gwaith cymdeithas yn y wlad hon a gwledydd eraill.



RHAGAIR Y CYFARWYDDWR

Yn sylfaenol y mae'r Cyngor yn ymwneud â gofal cymdeithasol a threfniadau cymdeithasol. Mewn dehongliad o gymdeithas fodern tasg anodd yw dehongli swyddogaeth y llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a gwasanaeth gwirfoddol. Ar yr agwedd olaf hon y siaradodd Dr. Farrer Brown, ein gŵr gwadd, yn glir a phendant yn ein Pwyllgor Blynyddol. Yr ydym wedi ceisio pwyso a mesur swyddogaeth y gwirfoddolwr a'r gymdeithas wirfoddol yn fframwaith gymhleth ein bywyd cymdeithasol presennol.

Am flynyddoedd bellach ystyriwyd y Cyngor fel y prif gyfrwng i ddwyn ynghyd y cymdeithasau gwirfoddol yn y Dywysogaeth. Bu yn fraint i ni i uno polisiau cyffelyb o'r cyrrff yn ymwneud a'r henoed, gwasanaeth ieuenctid, gofal cymdeithas a gweithgareddau diwylliannol. Daw'n amlgach o ddydd i ddydd fod yn rhaid i'r cymdeithasau hyn fel ni ein hunain ail ystyried ein sefyllfa. Gwneir cymaint o ddarpariaethau gan adrannau cynyddol y Gwasanaethau Lles ac Iechyd fel y mae'n rhaid egluro ac ail ddatgan argyhoeddiadau sylfaenol swyddogaeth draddodiadol y gwirfoddolwyr a rydd yn hael o'u nerth a'u hamser.

Pwysleisiodd Dr. Farrer Brown fod gwirfoddolrwydd yn nodwedd hanfodol o'r ffordd Brydeinig o fyw. Saif neu syrth y Cyngor yn ol yr argyhoeddiad yma. Calonogir ni gan agwedd y llywodraeth ganol a'r awdurdodau lleol s'yn eilio'r agwedd hon, ag sydd yn barod i gynnwys o fewn eu gweithgareddau gymorth y rhai a ddymuna'n ddiwyll gynorthwyo eu cymdogaion. O bob ochr daw cri am brinder brawychus o wirfoddolwyr o'r ansawdd iawn. Felly bwriada'r Cyngor drwy'r adrannau bwysleisio'r angen o ddenu gwyr a gwragedd o ewyllys da tuag at dasgiau arbennig.

Fel y sylwir wrth ddarllen yr adroddiad trefna pob adran gyrsiau arbennig mewn blaenori mewn un ffordd neu'r llall. Gwneir hyn gan wybod nad oes prinder cydymdeimlad dynol yn ein cymdeithas fodern, ond rhaid cael cyfrwng i siarlu cynigion o gynorthwy ac ymarfer y gwirfoddolwyr. Mae'n wirebol nad yw pob person sy'n cynnig help o angenrhaid yn addas i wasanaethu mewn swydd arbennig. Nid yr unigolyn bob amser yw'r beirniad gorau o'i dalentau a'i alluoedd personol, felly tasg anodd i'r Cyngor a'r Pwyllgorau perthynol yw nid yn unig chwilio gwirfoddolwyr o'r ansawdd iawn ond arwain y rhai hyn i wasanaethu mewn mannau addas ar gyfer eu profiadau au galluoedd.

Ni fedr unrhyw Adroddiad Blyneddol ond rhoddi amlinelliad o brif weithgareddau beunyddiol. Dangosir oddi wrth adroddiadau'r adrannau i'r flwyddyn fod yn flwyddyn o weithgarwch brwd. Nid oes angen mewn rhagair o'r natur yma i ail-adrodd manylion a geir yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Mae'n werth nodi rhai agweddau o'r gwaith sydd o arwyddocad arbennig.

Cydsynia pob gweithiwr cymdeithasol fod gofal a lles yr hen oed yn estyn cyfle arbennig i wasanaethu. Trwy Gymru y mae 140 o

Yr Oedrannus

Bwyllgorau Lleol yn hyrwyddo cynlluniau er lles yr hen bobl. Fe fedr pob un o'r Pwyllgorau hyn droi at Bwyllgor Gofalu am yr Oedrannus yng Nghymru am gymorth ac arweiniad. Bydd llawer o'r pwyllgorau hyn yn gofyn am arweiniad uniongyrchol o'r swyddfa yma. Yn ogystal, gwasanaethir hwynt gan Bwyllgorau Sirol Lies Hen Bobl ac ar hyn o bryd y mae un-ar-ddeg mewn bodolaeth. Cyrhaeddodd y patrwn yma ei ddiweddeglo naturiol drwy ail ffyrlio ein Pwyllgor Cenedlaethol Cymreig a chyda hyfrydwch y nodwn i bob Sir yng Nghymru a Mynyw anfon cynrychiolwyr o'r sefydliadau gwirfoddol a deddfol. Datblygiad arall oedd creu Cynhadledd Barhaol Gogledd Cymru, ac felly cwblhawyd y beirianwaith weinyddol.

Y mae'n galonddid mawr i'r Cyngor fod y cyrsiau a'r cynhadleddau a drefnwyd i hen bobl gael eu derbyn gyda'r fath frwdfrydedd a phresenoldeb da. Mae perthynas wresog rhwng ein Pwyllgor er gofal yr Oedrannus yng Nghymru a'r Pwyllgor Cymreig o Gymdeithas Brydeinig y Geriatric. Canlyniad hyn fu mabwysiadu Cynhadleddau cyson, sy'n profi'n werth arbennig i bobl meddygol a lleigg sy'n cysegru eu hunain i ofalu am yr oedrannus.

Y mae'r arbrawf o Gyllun Ymweld a'r oedrannus yn Ninas Caerdydd a fu'n bosibl drwy haelionai Corfforaeth Cenedlaethol er Gofal yr Hen Bobl yn un o'r siatensau mwyaf a ddaeth i'n rhan yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yr ydym yn disgwyl canlyniadau sylweddol o'r arbrawf hyn ar ol tair blynedd.

Y mae'r Adran Gymdeithasol yn gwneud ymdrech arbennig i ddwyn ynghyd gwybodaeth fanwl o'r darpariaethau presennol mewn gofal

Gofal

Cymdeithasol

Un anhawster wrth geisio ystyried y cylch yma yw'r prinder mawr o wybodaeth bendant o'r hyn a wneir. Hyderir y bydd yn bosibl i gynhyrchu dogfen a rydd fanylion pendant o'r Canolfannau Cymdeithasol a Chymdeithasau a Phwyllgorau Neuadd Pentref drwy'r wlad. Dengys y wybodaeth a ddaeth i law eisoes fod cnewyllyn pendant ac egniol bron ymhob cylch. Y mae ardaloedd hefyd lle y teimlir fod yn rhaid creu awyrgylch o farn y cyhoedd, ym mha un y medrir mabwysiadu synnwyr dyfnach o ofal cymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn trefnwyd cyfres o gyfarfodydd trwy Gymru ym mha rhai y siaradwyd gan y Prif Gomisyner Elusen, Mr. C. P. Hill, C.B.E.,

Elusennau

neu Ysgrifennydd Comisiwn Elusen, Mr. W. E. A. Lewis, O.B.E. Cydweithiodd y Cyngor a'r Comisiwn Elusen i drefnu'r cyfarfodydd hyn a disgwyliwn gyda diddordeb gwblhau cofrestrau o Elusennau mewn Awdurdodau Lleol.

Mewn ymdrech i gynorthwyo yr ymgyrch genedlaethol i ddarparu mwy o gyfleusterau i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol, cydweithia'r Cyngor

Hyfforddi Gweithwyr

Cymdeithasol

a'r sefydliad Cenedlaethol er Hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol a sefydlwyd flwyddyn yn ol i wasanaethu fel Canolfan Hyfforddi Cenedlaethol neu Goleg Gweithwyr. Y mae'r Sefydliad yn ymgynghori ynghyd a'r swyddogion hyn a gweithwyr arbennig yr Awdurdodau Lleol, gyda golwg i hyfforddi a chyflogi gweithwyr cymdeithasol. Hyderir y bydd ffurfio'r Sefydliad yma yn help i wrthsefyll prinder gweithwyr cymdeithasol proffesiynol.

Cyflwynodd Byrddau Ysbytai Rhanbarthol ac Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lles, eu trefniadau i'r Gweinidog Iechyd ynghyd a'u

Cynllyn

Deng Mlynedd

rhaglenni am y ddeng mlynedd nesaf. Bu'r Cyngor hwn ynghyd a Cynghorau Gwlad Cymru a Mynwy yn astudio trefniadau yn yr ardaloedd, a bwriadwn amseru ein rhaglenni i redeg yn gyfochrog a'r datblygiadau a fwriedir.

Gwnaed astudiaeth fanwl o'r ffordd y medr sefydliadau gwirfoddol ymateb i apel a wnaed mewn cylch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd i Awdurdodau Lleol at ddefnydd gwirfoddolwyr yng ngwasanaethau Iechyd a Lles. Y mae'r Cyngor yn ymgynghori a'r Gynhadledd Genedlaethol a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Cymru ar y pwnc hwn.

Yn yr adroddiad ceir manylion o gynnydd yr Is-Bwyllgor a ffurfiwyd yn ddiweddar. Amcana'r Pwyllgor ddarganfod

Astudiaethau

Cymdeithasol

ym mha le y mae angen pwyslais mewn darparu ar gyfer gofal cymdeithas. Bu cymaint o gyfnewidiadau fel y mae angen darlun cyfansawdd ar y Cyngor i'w tywys mewn polisiau yn y dyfodol.

Un o'r agweddau mwyaf calonogol o'n rhaglen oedd ffurfio Cynhadledd Barhaol i ofalu am Gyn-garcharorion. Cyhoeddwyd llyfryn yn nodi ffeithiau a ffigyrau, ynghyd ag anghenion aelodau cyfansoddol ar agwedd o'r gwaith a wneir gan y sefydliadau gwirfoddol a deddfol sy'n ymwneud a Gofal am Gyn-garcharorion. Mae'n debyg mac hon yw'r gynhadledd gyntaf o'r natur yma ym Mhrydain Fawr a derbyniodd fendith y Swyddfa Gartref.

Dilynodd y Cyngor yn fanwl adroddiadau y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Mynwy gan sylweddoli os derbynir y cynigion terfynol y bydd adwaith ddiifrifol ar batrwn presennol gweinyddiad Sirol y sefydliadau gwirfoddol. Hyderir y bydd yn bosibl i ni i gydweithredu y gynrychiolaeth a wneir gan y sefydliadau gwirfoddol hyn wrth ystyried a phwyso y newidiadau a'r effeithiau ar gyrff unigol.

Estynwyd croeso cynnes i'r aelodau newydd canlynol o'n Pwyllgor :
Pwyllgor Mrs. Dorothy Elliot Seager, M.B.E., Y.H., Mr. D. R. Edwards, M.B.E., Y.H., Mr. Wyndham Heycock (Swyddog
Gwaith Addysg Bellach Cyngor Sir Morgannwg), Henadur Arthur Jones (Sir Fflint) a Mr. T. B. Morris.

Yn ystod y flwyddyn collasom wasanaeth werthfawr Syr Robert Webber, D.L., Y.H., un o'n Is-Lywyddion. Er breuder iechyd bu Syr Robert yn bresennol ym mhwyllgorau'r Cyngor yn gyson hyd ychydig cyn ei farwolaeth. Ynghyd a llu o fudiadau cyhoeddus eraill yng Nghymru byddwn yn sicr o weld eisiau ei brofiad gwerthfawr a'i dywysiad amserol. Torrwyd cysylltiad gwerthfawr rhwng y Cyngor a theulu Davies Llandinam ym marwolaeth Miss Margaret S. Davies. Yr oedd Miss Margaret, fel yr adwaenem hi, yn gymwynaswraig fawr ac yn gefnogwraig hael o'r Cyngor hwn. Y mae'n gysur meddwl y bydd i'w llu gymwynasau i'r genedl fytholi'r atgof am eu theulu a wasanaethodd y wlad mor ffyddlon am ganrifoedd.

Drwg gennym gofnodi farwolaeth Mr. Frank Webber, O.B.E., Y.H., brawd y diweddar Syr Robert Webber. Fel aelod unigol o'r Cyngor dangosodd Mr. Frank Webber ddiddordeb dwfn yn ein gwaith a chofir ef am ei gwrteisi tyner a'i barodrwydd i gynorthwyo pob achos teilwng. Collwyd aelod arall ym mherson Mr. W. Arnold, Ysgrifennydd Pwyllgor Cymreig y Cenhedloedd Unedig. Yr oedd Mr. Arnold yn un o feibion enwoca Cymru, gyda'i hiraeth am heddwch a dealltwriaeth rhwng y cenhedloedd a'i hyrwyddiad o addysg mewn problemau Rhyngwladol.

Mynegwn ein cydymdeimlad i berthnasau y rhai diweddar hyn yn eu colled.

Collasom drwy ymddiswyddiad wasanaeth Mrs. F. Blaise Gillie, un o'n haelodau Gwaith mwyaf teyrngar ac y mae'n briodol cofnodi ein gwerthfawrogiad o'i gwaith. Atseinir y teimlad hwn mewn perthynas a Mr. F. Blaise Gillie, cyn-Ysgrifennydd yr Adran Gymreig o Faterion Cymreig a'r Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol. Geldw symud Mr. Gillie i swydd dramor fwch mawr mewn gwasanaethau

Llywodraeth yng Nghymru. Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu cychoedd newydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ymddiswyddodd Mrs. R. A. Williams yr hon a gyfunodd swydd Ysgrifennydd Cynhadledd Rhanbarthol o Sefydliadau Gwirfoddol Ieuenticid a Swyddog Swyddfeydd Cynghori Dinasyddion, ar ol blynyddoedd o wasanaeth teyrngar. Bu priod Mrs. Williams, y diweddar Mr. R. R. Williams, yn Gyfarwyddwr y Cyngor hwn, a chadwodd Mrs. Williams draddodiad gwerthfawr yn ei gwasanaeth, am yr hyn y mae'r Cyngor yn ddyledus.

Olynydd Mrs. Williams yw Miss M. Nesta Davies, a fydd yn Swyddog Amser Llawn yn Swyddfa Cynghori Dinasyddion.

Colodd y Cyngor hefyd wasanaeth Miss Mair George, Swyddog Ieuenticid/Cymdeithas, ar ei apwyntiad fel Swyddog Ieuenticid Cynorthwyol i Awdurdod Addysg Caerdydd. Teimlwn yn dra diolchgar i Miss George am arloesi'r gwaith yn yr adran yma. Croesawn yr olynydd, Mr. Eifion Hopwood, yr hwn sydd newydd gwblhau cwrs o astudiaethau mewn hyfforddiant Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe. Apwyntiad newydd oedd dewis Mrs. N. S. Webb fel trefnydd y Cynllun Peilot i Ymweld a'r Oeddrannus yn eu cartrefi yng Nghaerdydd.

Oherwydd ei bod yn gadael yr ardal, ymddiswyddodd Mrs. Patricia Ovens a fu'n gwasanaethu yn yr Adran Drama ac ar y staff ysgrifenyddol a chymerwyd ei lle gan Mrs. E. V. Williams. Ar ol gwasanaethu'r Cyngor a'r Clybiau'n werthfawr am amser maith ymddiswyddodd dau aelod o Adran y Gwagedd, sef, Miss M. M. Hughes a Miss L. M. Thomas. Er colli cydweithwyr ffyddlon teimlwn yn hyderus y bydd i'r cyfnewidiadau a'r ychwanegiadau i'r staff sicrhau parhad o safon uchel y swyddfa, a'r gweinyddiad allanol.

Dymuna'r Cyngor gyfleu ei ddiolchgarwch i'r Gweinyddiaethau, Y Comisiwn Datblygu, Awdurdodau Lleol, a'r Ymddiriedaethau a wnaeth yn bosibl drwy eu cymorth daliadau barhad y

Gwerthfawrogiad gwaith. Estynir gwerthfawrogiad y Cyngor hefyd i unigolion, Sefydliadau Diwydiannol, Tai Busnes ac Undebau Llafur am eu cyfraniadau. Yn arbennig, cawsom gymorth mawr gan gyngor Mr. D. J. Davies, Cynghorwr Apelau Anrhydeddus a'n Pwyllgor Cyllid a ddaeth ag incwm blynyddol ychwanegol i'r Cyngor drwy apelau wedi eu cynllunio'n ofalus. Yn y Cyswilt yma bu ymdrechion y Gweinidog dros Faterion Cymreig, Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Aberhonddu, wrth gyfleu yr achos i bennaethiaid sefydliadau masnach, yn werth mawr i ni a gwerthfawrognw ei ddiddordeb gweithredol yn ein gwaith.

Rhaid cofnodi gair o werthfawrogiad arbennig i aelodau Clwbiau Gwasanaeth Cymdeithasol y Gwagedd perthynol i'r Cyngor am eu cyfraniad hael o £1,511. Byddai llawer o'r gwaith yn amhosibl heb eu haelioni.

Rhaid son yn arbennig am gyfraniadau sylweddol o'r ymdrechion arbennig canlynol: Elw Arddangosfa Flodau yng Nghwrt Llanfair drwy ganiatad caredig y Cynol a Mrs. W. R. Crawshay; Cronfa Nadolig trwy garedigrwydd Mri. James Howell and Co. Ltd., a'r cyfraniad hael oddiwrt Tenovus drwy Mr. D. R. Edwards, M.B.E.

Fel staff, cofnodwn ein gwerthfawrogiad o'r arweiniad a'r cymorth a roddwyd gan Swyddogion Aurhydeddus y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith fel yr ymdrechwn i barhau yn ein gwaith. Yn ei dro mynegodd y Pwyllgor Gwaith ei bleser a'i werthfawrogiad o'r unigolyn a'r ymdrechion cyfunol o'r gwaith, gweinyddiad, a staff allanol y Cyngor.



ANERCHIAD Y DR. LESLIE FARRER BROWN, C.B.E., Y.H.,
Cyfarwyddwr Sefydliad Nuffield a Chadeirydd y Cyngor Genedlaethol o Wasanaeth Cymdeithasol (Corff.) yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor yn Neuadd y Sir, Caerdydd, 25ain o Hydref, 1962.

'Rwyf yn falch i fod yn bresennol yma y prynhawn hwn. Yn gyntaf oll yn rhinwedd fy swydd fel Chadeirydd y Cyngor Cenedlaethol o Wasanaeth Cymdeithasol teimlaf fy mod yn cyruchioli eich rhieni, ond yr hyn sydd yn fwy pwysig un o'ch cefnogwyr cadarnaf a gwresocaf ac hoffwn drosglwyddo ei gyfarchion.

Cyfeiriodd y Chadeirydd at ddechreuad y Cyngor hwn a chofiaf am y Sefydliad Newyddion Rhyngwladol enwog Reuter, a ddechreuwyd gyda 45 o golomennod. Fodd bynnag, pan ddarganfu y sefydlydd ddefnyddioldeb telgraff ehangodd y teclyn i ddatblygu ei bwrpas ei hun.

Wrth feddwl am ddechreuad bras y Cyngor hwn gyda'i broblemau a'i anawsterau (profiad pob Cyngor) ac wrth adolygu'r sefyllfa bresennol teimlwn ni fel eich ffrindiau guriad y galon a theimlwn eich bod yn cyfaddasu eich sefydliad i gwrdd a sialens newydd.

Carwn fynegi heddiw yn fy adroddiad rhywbeth y teimlaf yn gryf yn ei gylch sef Ricriwtio Gwirfoddolwyr ac Ysbryd Gwirfoddol Gwasanaeth Cymdeithasol. Bwriadaf siarad yn uniongyrchol ar y pwnc yma sy'n bwysig ac yn galw am sylw buan o dan dri phen :

1. Yn ein cymdeithas a ddisgrifiwyd fel democratiaeth rydd rhaid i'r gwirfoddolwyr chwarae rhan bendant.
2. Yn ol y gymdeithas bresennol sy'n dilyn polisiau Gwasanaeth Cymdeithasol y mae angen llawer o wirfoddolwyr o'r ansawdd iawn i wasanaethu awdurdodau'r cyhoedd a'r sefydliadau gwirfoddol.
3. Dylasai Cyngor Cenedlaethol o Wasanaeth Cymdeithasol a'r Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru a Mynwy ynghyd a sefydliadau lleol, wneud ricriwtio a datblygu gwirfoddolwyr yn waith arbennig a phwysig—darn o waith cymdeithasol pwysig ar ei ben ei hun.

Efallai i chi sylwi pan y nodais y pen cyntaf i mi fod yn ofalus i gyfeirio at y gwirfoddolwyr ac nid at y sefydliadau gwirfoddol. Y mae'n amlwg oddi wrth fy ngeithrediadau personol fy mod yn credu'n gryf mewn sefydliadau gwirfoddol. Nid yw'r sefydliadau gwirfoddol hyn ond un ffordd y medrwn ni yn y wlad hon fynegu'r syniad o wirfoddolrwydd.

Nid yw'r rhai sy'n gwasanaethu ar yr Awdurdodau Lleol, Byrddau Rheoli Ysbytai, Ynadon Heddwch yn llai o wirfoddolwyr na'r rhai sy'n gwasanaethu drwy sefydliadau gwirfoddol. Y mae gan bob un ei gyfrifoldeb arbennig ei hun, a chredaf mai yr unig ffordd i ymarfer cyfrifoldeb fel dinasyddion yw trwy ymgymeryd yn bersonol yng ngeithgareddau ein cymdeithas.

Ni fedr damcaniaethwyr roddi arweiniad i ni mewn perthynas a'n gilydd. Yr ydym i gyd, ym mha gylch bynnag yr ydym, yn dibynnu ar brofiad a gawsom o ddatblygiad ac ymarferiad y Wasanaeth Gymdeithasol, ac y mae'n angenrheidiol i dderbyn profiad uniongyrchol i weithredu ein meddyliau ein hun a'n cydymdeimlad mewn maes arbennig o wasanaeth. Carwn awgrymu fod dealltwriaeth o faes arbennig yn ehangu'r syniad o'r hyn sydd yn bosibl mewn meysydd eraill. Y mae rhai oherwydd ffaeleddau neu amgylchiadau personol yn methu cyfrannu fel gwirfoddolwyr tuag at ffyniant cymdeithas. Nid yw'r rhai hynny ohonom sydd heb fod yn chwarae ein rhan fel gwirfoddolwyr, yn fwy na banner dinasyddion, ac heb fod yn wir haeddu pleidlais. Ni cheir mesur o ddealltwriaeth o ystyr cymdeithas ond trwy gymryd rhan. Beiddiaf edrych ar y problem hon mewn cylch ehangach na ryw berfformiad o rai achosion y teimla cymdeithas sydd o ddiddordeb.

Seiliaf fy ail reswm am awgrymu angen am wirfoddolwyr ar adolygiad diweddar o weithwyr mewn gwasanaethau cymdeithasol. Y mae prinder dychrynlyd o weithwyr addas ar gyfer gwasanaethau iechyd, addysg, a lles. (Gyda llaw, credaf fod cyflogau rhai sy'n gweithio'n broffesiynol yn y Gwasanaeth Cymdeithasol yn anigonol).

Awgrymaf, os ydym am ddatrys y problem o sicrhau mwy o gymorth gwirfoddol, y bydd rhaid sicrhau llu o wyr a gwragedd gyda'r cymwysterau addas sydd yn barod i dderbyn y cyfrifoldeb rhwymedig a'i gyflawni yn anrhydeddus fel mewn cyfrifoldeb proffesiynol.

Mae meysydd eang i wirfoddolwyr weithredu i symud ffynonellau afiechydon, a chaledi cymdeithasol. Enghraifft o hyn yw maes cynghori'r Defnyddiwr yn Swyddfeydd Cynghori Dinasyddion. Y mae caledi ond ni achoswyd hwynt gan y gwerthwr na'r derbyniwr o angenrhaidd ond oherwydd cymhlethdod bywyd. Y mae'r fath ddewis fel y mae'r problem o wneud y dewis iawn yn aros. Y mae angen y dosbarth iawn o wirfoddolwr i arwain dinasyddion yn y maes hwn ac felly awgrymaf y dylasai'r Cyngor hwn a'r Cyngor Cenedlaethol ymwneud a'r dasg o ricriwtio ag hyfforddi'r gwirfoddolwyr hyn. Y mae hon yn weithred fusnes bwysig.

Medr y Cyngor, er enghraifft, agor adran ricriwtio ei hun gyda gwyr a gwragedd yn meddu ar brofiad o chwilio a dosbarthu pobl i'r manau priodol. Dylasem fod mewn sefyllfa i wybod pa waith sydd i'w wneud a'r teip o bobl sy'n addas ar gyfer y gwaith. Pe buasem yn apelio am wirfoddolwyr cawsem syndod i weld ansawdd y bobl y fyddai'n ymateb. Rhaid talu sylw arbennig i roddi cyfleusterau mewn gwasanaeth cymdeithasol i'r ifanc. Profodd Mr. Alec Dickson, yr hwn a ddechreodd "gwasanaeth cymdeithasol" mewn gwledydd tramor fod llu o bobl ieuaic yn awyddus i lanw bylchau mewn ysgolion, sefydliadau, ysbytai, etc., ym mha'leoedd y mae problemau dyrys a difrifol, ac y mae'r bobl ieuaic hyn yn ymgodymu'n dda a'r sefyllfa.

Y mae rhai am awgrymu fod y dull masnachol hwn o chwilio a defnyddio gwirfoddolwyr yn wrthun i ysbryd gwirfoddol. Os teimlwh fel hyn ymddiheuriaf ond ystyriaf y gwirfoddolwr yn berson mor bwysig yn y mater o berthynas dyn fel y mae'n rhaid edrych yn ddifrifol ar y ffordd i'w drin.

ADRODDIADAU ADRANNOL

GWLEDIG

Yn ystod y flwyddyn ymwelodd y Cyfarwyddwr a'r Dirprwy Gyfarwyddwr a phwyllgorau Cynghorau Gwlad yng Nghymru a Mynwy. Y mae'n rhan o gyfrifoldeb y Cyngor hwn i gydgyssylltu ymdrechion y Cynghorau hyn ag hyrwyddo ar eu rhan ym Mhwyllgor Gwlad y Cyngor Cenedlaethol o Wasanaeth Cymdeithasol ac i'r Comisiwn Datblygu. Ymwelodd y Cyfarwyddwr a'r Dirprwy Gyfarwyddwr yn gyson a'r Pwyllgor Gwlad, Is Bwyllgor Cymorth Dal Gwledig a Phwyllgor Polisi o'r Pwyllgor Crefftau Gwledig. Gwasanaethodd Mrs. F. Blaise Gillie fel cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Gyngor Ymgynghorol o Bwyllgor Diwydiannau Gwledig.

Y mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr yn aelod o Bwyllgor Neuaddau Pentrefi sy'n gyfrifol am gynghori Neuaddau Pentrefi a threfnu benthg arian a sicrhau cymorthdâl tuag at yr adeiladu. Gan ddilyn **Neuaddau** polisi'r Comisiwn Datblygu cynigiwyd llawer o'r **Pentrefi** Neuaddau a adeiladwyd yn fuan ar ol y rhyfel i'r Pwyllgorau Neuaddau Pentrefi Lleol. Cynghora'r Swyddfa hon Ysgrifenyddion y Cynhorau Gwlad yn y mater hwn gan gydweithio a'r Gweinidog Addysg.

Ar ol ymgynghori a'r Comisiwn Datblygu penderfynwyd mynd ymlaen gydag arbrawf tair blynedd ar Arddangosfeydd Diwydiannau Gwlad Cenedlaethol. Syrthiodd cyfrifoldeb gweinyddol y polisi ar y Cyngor hwn a galwyd pwyllgor o holl bwyllgorau Diwydiannau Gwledig o'r Cynghorau Gwlad i drefnu ac i weithredu'r polisi. Ffurfiwyd Pwyllgor Arddangosfeydd Cenedlaethol a phenderfynwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf o arbrofi i lwyfannu dwy arddangosfa, un yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, a'r llall yn yr Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol. Yn ystod y blynyddoedd diweddfaf bu llawer o Gynghorau Gwlad yn amau a oedd yn ddoeth parhau i gynnal arddangosfeydd Sirol gan nad yw'r cynhyrchiion o'r safon a ddisgwylir, ac yn aml y mae prinder crefftwy'r yn yr ardaloedd sy'n fodlon arddangos eu crefftau. Hyderir y bydd i'r arbrawf tair blynedd hysbysebu gwaith crefftwy'r gwledig a crefftau bychain yn ardaloedd gwledig Cymru. Ni waherddir Cynghorau Gwlad unigol rhag gwneud cais i'r Comisiwn Datblygu am gymorthdâl at Arddangosfeydd Sirol Unigol o dan y polisi newydd ond hyderir y canolbwyntir yr ymdrechion ar yr Arddangosfa Genedlaethol. Dengys tueddiadau ar hyn o bryd y bydd i'r polisi Cenedlaethol hwn fod yn dra llywyddiannus.

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd bwriadau y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Mynwy a chafwyd cyfres o bwyllgorau drwy'r wlad ym mha rai y chwaraeodd y Cynghorau Gwlad a'u Pwyllgorau **Ffiniau** perthynol eu rhan. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i wneud sylwadau ar effeithiau'r bwriadau ar Gynghorau Gwlad a'r sefydliadau gwirfoddol yn gyffredinol, ond os derbynir y bwriadau maes o law bydd adwaith ddifrifol ar rif y Cynghorau Gwlad a'i perthynas a'r awdurdodau wedi eu ailgyfansoddi. Pwrpas y Cyngor yw sylwi os gwneir y cynfnewidiadau na fydd i wasanaeth y Cynghorau

Gwlad gael ei amharu mewn unrhyw fodd. Yn ystod y deuddeg mis nesaf bydd y Cynghorau yn brysur fel y cynhelir ymholiadau cyhoeddus mewn gwahanol adrannau. Yn y cyfamser cedwir llygad craff ar bob arwyddocad pryd y teimlir y bydd i'r bwriadau effeithio ar wasanaeth cymdeithasol.

Cynhaliwyd Pwyllgor Blynyddol Ysgrifenyddion Cynghorau Gwlad a Threfnyddion Diwydiannau Gwledig a noddir gan y Cyngor yn Llandudno o dan lywyddiaeth Cyrnol W. R. Crawshay, D.S.O. Y siaradwyr gwadd a'u pynciau oedd Mr. Geraint Walters (Cyfarwyddwr i Gymru o'r Weinyddiaeth Lafur) "Diogelu ein Etifeddiaeth Hanesyddol," Mr. A. B. Oldfield Davies, C.B.E. (Rheolwr y B.B.C. yng Nghymru) "Darlledu a'n Etifeddiaeth Ddiwyllianol," Dr. Roger Webster (Cyfarwyddwr yng Nghymru o Gyngor y Celfyddydau) "Trefnu'r Celfyddydau yng Nghymru," a Mr. J. Cosmo Clark, C.B.E., M.C., R.A. "Datblygiad Gwasanaethau Diwydiannau Gwledig". Yn ogystal a'r cyfarfodydd cyhoeddus yr oedd pwyllgorau arbennig i'r Ysgrifenyddion a'r Trefnyddion.

Ym mis Hydref, 1962, cynhaliwyd cynhadledd deuddydd y Cynghorau Gwlad yn swyddfeydd y Cyngor. Yn y ddwy gynhadledd ymdriniwyd yn fanwl a pholisi a fydd yn effeithio cymdeithasau gwledig a bu'n fihonnell werthfawr at wybodaeth a thratodaeth ar faterion pwysig.

Yn ystod y flwyddyn rhoddodd y Cyngor ystyriaeth fanwl i'r posibilrwydd o ffurfio Cyngor Gwlad yn Siroedd Morgannwg a Fflint. **Gwaith** Anerchwyd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyffredinol ar y pwnc yma gan Gadeirydd a **Lledaenu** Chyfarwyddwr y Cyngor a disgwyli'r datblygiadau pellach maes o law. Paratowyd cofnodiad ar arwyddocad ffurfio Cyngor Gwlad ym Morgannwg ac anfonwyd hwn i'r Comisiwn Datblygu a Chyngor Sir Morgannwg.

Cyfyngir gwaith cefn gwlad yn Sir Fflint i Undeb Cynghorau Plwyf a Chymdeithas Meysydd Chwarae Sirol sydd o dan ysgrifenyddiaeth Mr. Eifion Jones, Y.H., ac y mae'r Cyngor yn gwerthfawrogu'n fawr ei ymdrechion diffino ar ran y ddau sefydliad.

SIR FFLINT

Undeb Cynghorau Plwyf: Yn ystod y flwyddyn o dan adolygiad croesawodd y Gymdeithas Sir ddau Gyngor Plwyf i'w haclodaeth, sef y Waen yng nghylich Llanelwy, a Wellington yn ardal **Aelodaeth** Maelor. Dug hyn yr aelodaeth i 32 allan o 42 posibl. Yng nghymdogaeth Penarlag y mae gennym wyth allan or naw posibl; yn ardal Llanelwy saith allan o wyth posibl ac ym Maelor pedwar allan o'r un-ar-ddeg posibl.

Gwybodaeth i'r Cynghorau Plwyf ar Faterion Trefnu: Y mae'n hyfrydwch nodi cynrydd yn y cyswllt hwn. Am flynedd-oedd bellach bu ymgynghori a'r Awdurdodau Lleol ond wrth ymadael a'r polisi hyn rhaid oedd nesu at y Cynghorau Gwlad Lleol. Gwnaed cynnydd gyda dau o'r Cynghorau ac hyderir y bydd i ymgynghori a'r ddau arall ddwyn ffrwyth.

Sir Fflint yw'r unig Sir yng Nghymru lle na chynhelir Cystadleuaeth y Pentref Gorau a phenderfynodd yr Undeb Sirol drefnu un. Ni fu'n bosibl i gwblhau'r manylion ar gyfer cystadlenaeth yn 1963, ond lyderir y trefnir un ar gyfer 1964.

Comisiwn Llywodraeth Leol : Bu'r Undeb Sirol yn brysur yn archwilio Bwriadau Ffiniau Sir y Comisiwn Llywodraeth Leol. Bu cyfathrachau llawn a'r Pwyllgorau Adrannol yr Undeb ar ba un y

Ffiniau cynrychiolir pob Cyngor Plwyf yn uniongyrchol. Bu'r Undeb yn bresennol yn y Cynhadleddau Sir yr Awdurdodau Lleol ac anfonodd yr Undeb ei sylwadau yn syth i'r Weinyddiaeth gan nodi nad oedd unrhyw wrthwynebiad pendant i'r bwriadau ond ar yr un pryd yn awgrymu mân newidiadau.

Cymdeithas Meysydd Chwarae Sirol : Cynhaliwyd yr ail Bwyllgor Blynyddol Gyffredinol o'r Gymdeithas ym Mhrestatyn. Penderfynwyd newid man cyfarfod pob pwyllgor blynyddol i gynnwys

Pwyllgorau pob rhan o'r sir. Rhoddodd y Siaradwr Gwadd, Mr. W. D. Abernethy o Gymdeithas y Meysydd Chwarae Cenedlaethol sgwrs ddiddorol ac anogol ar Broblemau Arwain mewn Chwarae a Threfnu a Gweinyddu Maes Chwarae.

Trosglwyddwyd i'r Gymdeithas o Sir Gaer ddau gynllun "byw" sef y cynllun yn Queensferry lle y collwyd Maes Chwarae oberwydd cynllun newid heol, a'r llall yng Nghyngor Plwyf

Cynlluniau Gorllewin Saltney, Shotton. Y cynlluniau eraill ym mha rai y cymerrir rhan gan Gymdeithas Sirol newydd Sir Fflint yw Cyngor Plwyf Sir Hope ym Mhenyffordd ; Treuddyn ; Mynydd Isa' ; Leeswood a Worthenbury. Derbynnir llu o ymholiadau fel y darganfyddir fod Cymdeithas yn awr yn gweithredu yn y Sir.

Cynhelir Pwyllgorau y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith bob yn ail yn Yr Wyddgrug a Threffynnon a chafwyd cynulliad da, aelodau yn dangos diddordeb brwd yng ngwaith yr Undeb.

Y mae'r Pwyllgor Gwaith Sirol ar hyn o bryd yn ystyried natur polisi'r Undeb Sir er benthg arian ar gyfer cynlluniau yn y Sir.

Benthg Dibynna hyn, wrth gwrs, ar sefyllfa ariannol yr Undeb. Ar hyn o bryd y mae £300 mewn llaw ac y mae yn galonddid ac yn addawol i Undeb a sefydlwyd ddeunaw mis yn ol.



CLYBIAU MERCHED

Trwy Morgannwg a chylchfesur Sir Gaerfyrddin y mae 112 o Glybiau Gwasanaeth Cymdeithasol y Merched gydag amcangyfrif aelodaeth o bron 4,000. Y mae deunaw aelod o'n staff yn ymwneud a gwasanaethu'r adran hon a pherir gwaith i ffurfio un o brif weithgareddau'r Cyngor.

Bu'r flwyddyn ddiwetha'n un o gynnydd amlwg a phendant a chafwyd parhad yn y polisi o ddatblygu. Sefydlwyd tri clwb newydd sef Llanilltyd Fawr, Efail Isaf a'r Ynys, ac un arall yn **Clybiau Newydd** Felindre, Port Talbot, a agorir yn y dyfodol agos. Collwyd un clwb ond y mae'n ddiddorol sylwi ni ddigwyddodd hyn oherwydd diflyg brwdfrydedd yr aelodau, ond oherwydd i fwyafrif yr aelodau ddechrau gweithio amser llawn. Mae hyn yn sylw diddorol ar yr olygfa gymdeithasol, ac y mae'n arwyddocaol o'r rhan y chwery gwagedd mewn diwydiant yn y rhannau mwyaf diwydiannol o Dde Cymru.

Nodwedd amlwg o'r flwyddyn oedd cynnydd mewn nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd oddiwrth Glybiau am ddarlithiau a ffilmiau ar bynciau o ddiddordebau allanol. Y mae cynnydd mewn ymweliadau a ffatrioedd a lleoedd o ddiddordeb cyhoedd. Ymwelodd rhai clybiau a lleoedd fel Canolfan yr Heddlu, Cyfnewidfa Telffon, Gweithiau Olew a'r Burfa Petrol. Y mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegol i gyrsau arferol y tymor.

Gweithgareddau
Cynhaliwyd " Ymddangosfeydd Mannequin " ac Arddangosfeydd o Waith Clwb llwyddiannus ym Mhorthcawl a Phontypridd ac yng Nghanolfan Bryntirion. Cafwyd cynulliadu da i weld y gwisgoedd a ddangoswyd yn ogystal a'r gwisgoedd pen a'r ychwanegiadau a wnaed ac a wisgwyd gan yr aelodau. Bu parhad o ddiddordeb yn y dosbarthiadau gwneud gwin a choginiaeth.

Yn ychwanegol i'r nodweddion addysgiadol mewnol hyn o Wasanaeth Gymdeithasol y Merched, cofia'r gwagedd fod ganddynt ddyletswydd i'r gymdeithas. Cynhaliwyd llu o gyngherddau er elw achosion lleol, ac ymwelwyd a chartrefi hen bobl a charcharau. Trefnwyd partion a theithiau i hen bobl a rhoddwyd cymorth i'r oedranus mewn gwahanol gylchoedd gyda siopa a chasglwyd arian i gefnogi cartrefi a chlybiau hen bobl. Rhoddwyd cymorth gan aelodau unigol yn y Canolfannau Iechyd ac mewn trefnu casgliadau at achosion arbennig, gyda phob adran yn cefnogi ei achos arbennig ei hun. Y mae'r Eglwysi a'r Capeli lleol yn elwa a Bartion Cyngherddau, Cymdeithasau Drama, a Grwpiau Darllen Drama y Clybiau.

Yn ogystal a'r gweithgareddau diwylliannol y mae dosbarthiadau " Cadw'n Heini " yn y cylch ac yn aml iawn una'r aelodau ysbaid o weithgareddau corfforol.

Trwy Undeb Cenedlaethol Clybiau'r Merched rhoddwyd cymorth ariannol gan y Clybiau i Wersyll y Ffoaduriaid yn Asten, Awstria.

Y mae aelodau'r Clybiau yn ymfalchio yn eu gwasanaeth i gymdeithas. Chwery llawer ohonynt eu rhan yn eu cylchoedd fel Ynadon, Cynghorwyr Plwyf a Chynghorwyr Lleol. Cynrychiolir aelodau eraill ar sefydliadau fel y W.V.S., y Groes Goch, Ambiwlans Sant Ioan, Cyngor Ymgynghorol y Merched ar Danwydd Caled, Cynhadledd Barhaol Sefydliadau'r Merched, a Phwyllgor Addysg yr Awdurdod Lleol.

Ymddiswyddodd dau o'r staff, sef Miss M. M. Hughes a Miss L. M. Thomas, ar ol blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon a theyrngrar ac fe welir eisiau eu gwasanaeth ymysg y Clybiau. Gyda thristwch hefyd derbyniwyd ymddiswyddiad Mrs. F. W. M. Hughes oherwydd afiechyd. Cymerir mesurau buan i lenwi'r bylchau.

Rhoddir arddangosfeydd yn aml gan athrawon gwaith llaw i sefydliadau eraill pan fo galwad amdanynt. Trefnir ymdrechion cyfunol, un yn arbennig sydd yn ddigwyddiad blynyddol, sef y Rali a'r Dydd Agored yn Fferm y Sir Tregroes, pryd y trefnwyd arddangosfa arbennig gan wahanol Sefydliadau'r Merched yn y Sir.

Rhoddwyd sgrysiâu yn ddiweddar ar amcanion a phwrpasau i barti o fyfyrwyr (a gymerai Tystysgrif Ymwelydd Iechyd) ac a dreuliodd wythnos gyda gwahanol adrannau'r Cyngor. Cawsant gyfle hefyd i ymweld a Chlwb Merched i wyllo arddangosfa coginio.

Nodwedd amlwg o'r adran oedd trefnu gwyliau adrannol. Rhanna'r adran ei hun yn dair adran rhanbarthol, a threfnodd **Gwyliau** aelodau'r staff wyliau yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor i'r adrannau hyn. Yn ystod y flwyddyn bu un adran yn teithio'r Iwerddon ac un arall yn teithio'r Arfordir Dwyreiniol.

Y mae Clybiau'r Merched yn berthynol i lawer o gyrff yn Ne Cymru a dymuna'r adran gofnodi diolchgarwch i'r trefnyddion a'r arddangoswyr o sefydliadau eraill am ei cydweithrediad i **Gwerthfawrogiad** wneud y rhaglenni yn fwy effeithiol. Yn arbennig y mae diolchgarwch yn ddyledus i staff Fferm y Sir, Pencoed, staff Adran Addysg Bellach Pwyllgor Addysg Morgannwg, a Threfnydd y Cyngor Ymgynghorol ar Danwydd Caled.

Sylweddola aelodau staff y Cyngor ac aelodau'r Clybiau Merched na fyddai'r gweithgareddau uchod yn bosibl heb y cymorth ariannol hael oddi wrth Awdurdodau Addysg Morgannwg a Chaerfyrddin. Calonogir yr adran gan y gwerthfawrogiad a ddangosir gan yr Awdurdodau Lleol mewn gweithgareddau sy'n cynnwys addysg bellach.



PWYLLGOR GOFALU AM YR OEDRANNUS YNG NGHYMRU.

Yn ystod y flwyddyn parhaodd cynnydd yn yr adran ad-drefnol yma a chafwyd dau Bwyllgor cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Nodwedd hapus o'r pwyllgorau hyn fu'r gynrychiolaeth amlwg o gyrff gwirtoddol a deddfol o'r Dywysogaeth. Y mae gan bob Sir a phob Bwrdeisdref yng Nghymru gynrychiolydd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor.

Ym mis Mai 1962 balch oedd y Pwyllgor i gydweithredu ag Adran Gymreig y Gymdeithas Geriatric Brydeinig i drefnu Cynhadledd Un-ddydd ar "Iechyd a Lles yr Henoed yng Nghymru", a gynhaliwyd yn Nhemel Heddwch Caerdydd. Daeth 300 o gynrychiolwyr i'r Gynhadledd o bob rhan o Gymru a siaradwyd gan Dr. A. Culley, Aelod Meddygol o Fwrdd Iechyd Cymru, Mr. R. F. Simson, Ysgrifennydd Corfforaeth Genedlaethol er Gofal yr Oedrannus, Athro John Yudkin, Athro Maeth Prifysgol Llundain, a Dr. Ferguson Anderson, Cyngorwr mewn Geriatrics Bwrdd Rhanbarthol Gorllewinol yr Alban.

Cynhaliwyd ail gynhadledd mewn cydweithrediad ag Adran Gymreig o Gyndeithas Brydeinig y Geriatrics ym Mangor, Sir Gaernarfon.

Cynhadleddau "Gofal yr Oedrannus Gartref". Cynhaliwyd y gynhadledd yn Neuadd Powys ym mis Ebrill a daeth dros tri chant o gynrychiolwyr ynghyd. Ymysg y siaradwyr oedd Dr. G. W. Roberts, Swyddog Iechyd Sir Fflint, Mr. George Evans, Swyddog Lles Caer, a Mrs. D. Newman, Is-Gadeirydd o Gyngor Cenedlaethol Lles Hen Bobl.

Oherwydd llwyddiant y ddwy gynhadledd arweinir y Pwyllgor i gredu y dylai cynnulliadau o'r natur hyn ffurfio rhan o weithgareddau blynyddol y Pwyllgor ac o ganlyniad trefnir rhagor o gynhadleddau.

Teimlwyd angen am ffordd i ddwyn ynghyd Bwyllgorau Sirol Lles Hen Bol ar seiliau adrannol. Gwahoddwyd saith o bwyllgorau sirol

Gogledd Cymru Gogledd Cymru i anfon cynrychiolwyr i bwyllgor yn Nolgellau ar yr 17eg o Hydref 1962. Penderfynwyd sefydlu Cynhadledd Barhaol Gogledd Cymru o Bwyllgorau Lles Sirol Hen Bobl i geisio creu cyfle i'r siroedd i ddoed ynghyd i drafod problemau cyffredin.

Un o brif hanfodion i barhau gyda gwaith y Pwyllgorau Ymgynghorol Lleol yw derbyn gwybodaeth fanwl am Bwyllgorau yr Henoed a'r

Adolygiad Clybiau. Anfonwyd holiadur allan gan yr Adran a gobeithir casglu y wybodaeth sy'n bosibl gyda'r amcan o orffen yr adroddiad a'r adolygiad erbyn Hydref 1963. Felly hyderir y bydd am y tro cyntaf yng Nghymru ddarlun cyflawn o weithgareddau yr Oedrannus ymhob cwr o'r wlad. Mynegodd Bwrdd Iechyd Cymru ei hyfrydwech ynglyn a'r mudiad gan son y byddant yn croesaw'r wybodaeth fanwl hon.

Bu llawer o ddatblygiadau yn y siroedd yn ystod y flwyddyn. Sefyd-

Pwyllgorau Sir lwyd Pwyllgorau Lles yr Oedraunus drwy gefnogaeth y Cyngor yn Sir Ddinbych a Sir Drefaldwyn. Dim ond dwy sir sydd heb unrhyw ffurf o Drefn Sirol, sef Siroedd Fflint a Morgannwg, ond ym Morgannwg y mae cyfathrach agos rhwng Swyddog yr Oedrannus a Phwyllgorau unigol a Chlybiau.

Trefnodd Pwyllgor Lles yr Oedrannus yn Sir Feirionydd Gynhadledd o swyddogion o Bwyllgorau Lles yr Oedrannus Lleol yn y Sir ac anerchwyd gan Swyddog Lles yr Oedrannus yng Nghymru yr hwn hefyd a anerchodd gyfarfod cyhoeddus yn Nolgellau a drefnwyd gan Gyngor Gylch Trefol Dolgellau i ystyried ffurfio Pwyllgor Lles yr Oedrannus yn Nolgellau. Penderfynodd y pwyllgor i fynd ymlaen a'r trefniadau ar gyfer Pwyllgor o'r fath.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus ym Mwrdeisdrefi Caerfyrddin a Dinbych ac yn y ddau le cytunwyd i ffurfio Pwyllgor er Lles yr Oedrannus. Bu ein Swyddog yn annerch y Gynhadledd a drefnwyd gan Bwyllgor Lles yr Oedrannus yn Sir Gaerfyrddin ar amgylchiad "Wythnos yr Henoed".

Yn ystod y flwyddyn agorwyd yn swyddogol bedwar adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer Clybiau yr Oedrannus y rhai hyn oll a dderbyniasant gymorth o Gronfa Sefydlu Brenin Sior VI. Y mae'r adeiladau hyn yn Aberdaugleddau, Cwm Ogwr, Brynamman a Phorthcawl.

Bob tro posibl ymwelir a phwyllgorau cyffredin a blynyddol y Sir a Phwyllgor Lleol Lles yr Oedrannus gan Swyddog Lles yr Oedrannus o dan y Cyngor, ac yn ystod y flwyddyn ymwelwyd a 15 o'r pwyllgorau hyn.

Cynhaliwyd y ddegfed Wythnos yr Henoed yng Nghymru yn ystod yr wythnos o 30ain o Fedi hyd y 6ed o Hydref 1962 a chydweithredodd pob ardal yng Nghymru. Profwyd i'r thema "Ychwanegwch Fywyd at y Blynyddoedd" fod yn dderbyniol iawn ac yr ydym eto yn ddyledus i Swyddfa Ganolfan Wybodaeth a Bwrdd Iechyd Cymru am eu cydweithrediad yn cynhyrchu y Poster Cenedlaethol ac hefyd i'r Wasg, B.B.C., T.W.W. a Theledu Cymru am y cyhoedduswyd a roddwyd i'r "Wythnos".

Ni fyddai'r adroddiad hwn yn llawn heb fynegiant o ddiolchgarwch am gydweithrediad caredig y llu a weithia er lles hen bobl, ac yn arbennig rhaid nodi Swyddogion Cyngor Cenedlaethol Lles yr Oedrannus a'r Corfforaeth Genedlaethol i ofalu am Hen Bobl.

Y mae'r adran yn ddyledus i Ysgrifenyddion Pwyllgorau Lleol a Sirol Lles Hen Bobl am eu cydweithrediad parhaus ac am eu gwasanaeth.



CYNLLYN YMWELD A'R HEN BOBL YNG NGHAE RDYDD

Ers amser bellach bu'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen yn y Britddinas am Bwyllgor Cyfansawdd er Lles Hen Bobl. Y mae'r Pwyllgor presennol sydd yn gwnend gwaith neullduol trwy ddarparu nebaddau preswyl i'r oedrannus yn ymwneud a'r gwaith yma yn fwyaf arbennig. Gyda'r amcan o ledu gwasanaeth i'r Oedrannus yn y ddinas, bu ymgylfathrachau a'r Gorfforaeth Genedlaethol er Gofal yr Oedrannus a chynigiodd y Gorfforaeth gymorthdâl am gyfnod o dair blynedd i symbylu'r cynllun peilot i ymweld a hen bobl yn eu cartref leoedd. Gobeithir mai hwn fydd y cam cyntaf i sefydlu cynllun cyfansawdd yn y Ddinas.

Galwodd y Cyngor a Phwyllgor Lles yr Oedrannus yng Nghymru ynghyd gynrychiolwyr o Awdurdodau Deddfol yn cynnwys y Swyddog Iechyd, Cyfarwyddwr Lles, a'r rhai gwirfoddol a weithiai ymysg yr oedrannus. Cynrychiolwyd hefyd yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwysi Rhyddion a'r Eglwysi Catholig, ac yn y cyfarfod hwn amlinellwyd y cynllun a chefnogwyd ef yn wresog.

Dewiswyd Mrs. N. S. Webb fel trefnydd y Cynllun Ymweld a phenderfynwyd symbylu'r cynllun yng nghylch Splott. Yr amcan yw i'r holl gyfryngau sy'n gweithio yn y cylch hwn i gydweithio i ffurfio Pwyllgor ac i ffurfio cofrestr o'r hen bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hun yn y cylch, gan dalu sylw arbennig i'r rhai mewn angen ymweliadau a help yn y cartref. Dogfennir y wybodaeth yn fanwl a throsglwyddir ef i'w gynnwys yng nghofrestr yr Awdurdod Lleol. Hyderwn y ceir gwirfoddolwyr ar gyfer cylch Splott yn gyfangwbl. Ar ol i'r Pwyllgor ddechrau gweithio bydd yn bosibl i'r trefnydd symud ymlaen i gylchoedd eraill yn y ddinas.

Gobeithir y cyfud o'r cynlluniau ymweld hyn angen i ffurfio polisi gyffredin er lles yr Oeddrannus yn cynnwys y cyrff gwirfoddol a ddeddfol, a hyn yn cael ei ddilyn drwy ffurfio Cyngor Lles Hen Bobl.



GWAITH CYMDEITHASOL

Rhan o brif gyfrifoldeb yr Adran Gymdeithasol yw datblygu bywyd a gwaith cymdeithasol iach a hapus yng Nghymru a darparu gwasanaeth gyngori effeithiol i ddedio a'r llu o brobleman cymhleth a gyfyd wrth geisio ffurfio Cymdeithasau a Chanolfannau Cymdeithasol. Ein nod yw helpu yr Undebau Cymdeithasol i ddatblygu ym mhob adran o'r gymdeithas ddiddordeb a dealltwriaeth o'r hyn a olygir wrth fyw ynghyd mewn cymdogaeth. Rhaid hefyd geisio darparu ar gyfer anghennion a diddordebau addysgiadol, diwylliannol ac adloniadol y gymdogaeth.

Prif dasg y Canolfan neu'r Undeb Cymdeithasol yw llunio allan o'r gymdogaeth a wasanaethir gymdeithas iach gref. Y mae prawf amlwg mewn cymdeithasau newydd o'r angen i adennill y synnwyr o "berthyn" a gollwyd trwy fudo, ond y cam cyntaf yw sicrhau cymorth a chyngor medrus i wynebu eu tasg anodd. Cyfranna Canolfannau a'r Undebau Cymdeithasol yn helaeth tuag at lu o gymdeithasau newydd wrth ddarparu yn eu canolfannau lu o weithgareddau amser hamdden a phrofiad yn nhechneg hunan lywodraeth ac arweinyddiaeth.

